# AWDURDOD TÂN AC ACHUB GOGLEDD CYMRU

Cofnodion o gyfarfod arbennig Awdurdod Tân ac Achub Gogledd Cymru a gynhaliwyd ddydd Mawrth 2 Rhagfyr 2014 yng Nghanolfan Fusnes Conwy, Cyffordd Llandudno. Dechreuodd y cyfarfod am 10 o'r gloch y bore.

**Yn bresennol**

| **Y Cynghorydd** | **Yn cynrychioli** |
|---|---|
| M Ll Davies (Cadeirydd) | Cyngor Sir Ddinbych |
| P R Lewis (Dirprwy Gadeirydd) | Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy |
| L W Davies | Cyngor Sir Ynys Môn |
| R Davies | Cyngor Sir Ddinbych |
| A I Dunbar | Cyngor Sir y Fflint |
| B Dunn | Cyngor Sir y Fflint |
| R J Dutton OBE | Cyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam |
| A Evans | Cyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam |
| J G Evans | Cyngor Sir Ynys Môn |
| C Hughes | Cyngor Gwynedd |
| R O Jones | Cyngor Sir Ynys Môn |
| G Lowe | Cyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam |
| H McGuill | Cyngor Sir y Fflint |
| P Owen | Cyngor Sir Ddinbych |
| R E Parry | Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy |
| M A Reece | Cyngor Sir y Fflint |
| W P Shotton | Cyngor Sir y Fflint |
| D Simmons | Cyngor Sir Ddinbych |
| J R Skelland | Cyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam |
| A Tansley | Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy |
| D Taylor | Cyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam |
| W O Thomas | Cyngor Sir y Fflint |
| G G Williams | Cyngor Gwynedd |
| R Wright | Cyngor Gwynedd |

**Hefyd yn bresennol:**

S A Smith (Prif Swyddog Tân a Phrif Weithredwr); K W Finch (Trysorydd yr Awdurdod); G Owens (Dirprwy Glerc a Swyddog Monitro); D Docx (Dirprwy Brif Swyddog Tân); R Simmons a R Fairhead (Prif Swyddogion Tân Cynorthwyol); G W Griffiths (Uwch Reolwr Hyfforddiant a Datblygu); G Brandrick (Uwch Reolwr Diogelwch Tân); S Millington (Rheolwr Maes); K Roberts (Uwch Reolwr Gweithrediadau); L Roberts (Uwch Reolwr yr Ystafell Reoli a Pharhad Busnes); S Morris (Rheolwr Cynllunio Corfforaethol); T Williams (Rheolwr Cyfathrebu Corfforaethol); S Forrest (Cyfrifydd, Adran y Trysorydd, Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy); A Davies (Swyddog Cyswllt Aelodau) a S Jones (Cynorthwyydd Cyswllt Aelodau).

**Ymddiheuriadau**

| **Y Cynghorydd** | **Yn cynrychioli** |
|---|---|
| D A MacRae | Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy |
| D J Miles | Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy |

## 1 DATGAN BUDDIANNAU

1.1 Ni ddatganwyd unrhyw fuddiannau.

## 2 MATERION BRYS

2.1 Nid oedd unrhyw faterion brys.

Ar yr adeg hon, esboniodd y Cadeirydd y byddai trefn yr agenda'n newid, ac y byddai eitemau 5, 6 a 7 yn cael eu trafod yn gyntaf. Gofynnwyd am y tri adroddiad hyn gan y Panel Gweithredol yn ei gyfarfod ar 27 Hydref 2014. Ar ôl ystyried yr wybodaeth yn yr adroddiadau gofynnid i'r Aelodau ystyried eitem 4 ar yr agenda cyn gwneud argymhellion yn seiliedig ar yr holl wybodaeth a ddaeth i law. Byddai'r penderfyniadau'n sail i gyllideb ddrafft 2015-16 a gyflwynir i'w chymeradwyo yn y cyfarfod ar 15 Rhagfyr 2014.

## 3 YMATEB I DDIGWYDDIADAU ANSTATUDOL

3.1 Cyflwynodd y PSTC Fairhead yr adroddiad a oedd yn rhoi gwybod i'r aelodau am oblygiadau posibl rhoi'r gorau i ymateb i ddigwyddiadau sydd y tu allan i swyddogaethau statudol yr Awdurdod Tân ac Achub. Mae'r swyddogaethau anstatudol yn cynnwys achub o ddŵr, achub â rhaffau, ac achub anifeiliaid mawr. Roedd yr wybodaeth a ddarparwyd yn ymwneud â nifer y mathau hyn o ddigwyddiadau yr aethpwyd atynt ers 2012/13, y gost, a'r risgiau sy'n gysylltiedig â rhoi'r gorau i'r gwasanaethau hyn. Ar hyn o bryd, mae'r Gwasanaeth yn darparu adnoddau a staff hyfforddedig i ymdrin â'r digwyddiadau hyn a'r mae'r costau'n dod o gyllidebau refeniw a chyfalaf yr Awdurdod.

3.2 Cydnabu'r Aelodau fod y risgiau sy'n gysylltiedig â rhoi'r gorau i unrhyw un o'r tri gwasanaeth yn cynnwys anfodlonrwydd ymysg y cyhoedd, pwysau gwleidyddol a her gan y cyrff cynrychioliadol. Er y byddai rhoi'r gorau i'r gwasanaeth achub o ddŵr yn arbed tua £75,000 y flwyddyn, cydnabu'r Aelodau mai dyma'r gwasanaeth pwysicaf ac uchaf ei broffil o blith y tri chategori. Mae'r Gwasanaeth wedi buddsoddi mewn peiriannau pwrpasol ar gyfer achub o ddŵr, ac mae'n darparu hyfforddiant arbenigol i sicrhau bod diffoddwyr tân yn barod ac yn gallu ymdrin â digwyddiadau achub o ddŵr.

3.3 Nodwyd bod y gwasanaeth achub â rhaffau'n cael ei ddyblygu gan ddarparwyr eraill megis y timau achub mynydd a thimau achub ar glogwyni Gwylwyr y Glannau. Fel arfer mae'r RSPCA yn mynd at ddigwyddiadau arbenigol lle mae angen achub anifeiliaid mawr, a gallent cael cefnogaeth milfeddyg petai angen. Tua £16,000 fyddai'r arbedion o ganlyniad i roi'r gorau i'r gwasanaethau hyn, a mwy o benderfyniad symbolaidd ydyw.

3.4 Bu'r Aelodau'n trafod gwahanol faterion, gan gynnwys adfer costau drwy yswiriant a chodi am wasanaethau. Dywedodd y Prif Swyddog Tân mai anodd fyddai codi tâl am waith difrifol i achub bywydau, yn enwedig o ran achub o ddŵr, a byddai hynny'n adlewyrchu'n wael ar y Gwasanaeth.

3.5 Mynegodd y Cyng. Wright bryder ynglŷn â'r posibilrwydd o roi'r gorau i unrhyw un o'r tri gwasanaeth, a theimlai y dylid gwneud yr arbedion mewn ffyrdd eraill. Esboniodd y Dirprwy Glerc fod y Panel Gweithredol wedi gofyn am ragor o wybodaeth am oblygiadau rhoi'r gorau i'r gwasanaethau hyn, a bod rhaid i'r Awdurdod edrych ar ddyletswyddau anstatudol neu byddai, o bosibl, yn lleihau ei ddyletswyddau statudol cyn y gweithgareddau anstatudol.

3.6 I ymateb i gwestiwn gan un o'r aelodau am y cyfarpar a ddarperir gan Lywodraeth Cymru a buddsoddiad cyfalaf yr Awdurdod ei hun mewn cyfarpar, eglurwyd nad yw Llywodraeth Cymru yn credu y dylai'r awdurdodau tân ac achub gael dyletswydd statudol i achub o ddŵr. Mae buddsoddiad cyfalaf yr Awdurdod wedi ei gwneud yn bosibl i ddarparu gwasanaeth achub o ddŵr sy'n fwy proffesiynol ac ymarferol.

3.7 O ran cwtogi ar yr hyfforddiant ar y sgiliau arbenigol hyn cadarnhawyd na fyddai hyn yn bosibl gan fod yna safon orfodol y mae'n rhaid i ddiffoddwyr tân ei chyrraedd, ac mae hyfforddiant rheolaidd yn bwysig er mwyn cynnal eu hachrediad a'u sgiliau.

3.8 Daeth y Cadeirydd â'r drafodaeth i ben ac esbonio y byddai'r argymhellion yn cael eu hystyried ar ôl trafod yr holl adroddiadau.

## 4 MYND AT LARYMAU TÂN AWTOMATIG

4.1 Aeth y PSTC Fairhead â'r aelodau drwy'r adroddiad a oedd yn rhoi gwybod am oblygiadau posibl cael polisi cadarnach ynglŷn ag ymateb i alwadau 999 gan larymau tân awtomatig. Roedd yr adroddiad yn rhoi gwybod am y galwadau gan larymau o'r fath a ddaeth dros y tair blwyddyn ariannol ddiwethaf, gan gynnwys y gost o fynd at y larymau a chyfanswm nifer y tanau y cafwyd gwybod amdanynt o ganlyniad i larymau tân awtomatig.

4.2 Mewn blwyddyn gyfartalog, mae GTAGC yn derbyn dros 2,000 o alwadau gan larymau tân awtomatig fel arfer, ac mae ymchwil wedi dangos mai galwadau diangen yw 96%-97% o'r adegau pryd y mae'r larymau hyn yn canu ac nid tanau ar y safle. Cydnabu'r aelodau fod llawer o bryderon ynglŷn â larymau tân awtomatig, a bod anfon ymateb brys alwad ddiangen yn gostus ac yn golygu bod criwiau gweithredol yn llai tebygol o fod ar gael ar gyfer argyfyngau go iawn.

4.3 Eto, teimlai'r aelodau y dylid cael polisi o godi tâl ar rai sy'n galw dro ar ôl tro heb gynnal a chadw'r systemau'n iawn, ond dywedodd y PST fod yna gyfraith achos sy'n rhwystro'r Awdurdod rhag codi tâl am fynd at larymau tân awtomatig.

4.4 Er mwyn mynd at lai o alwadau gan larymau tân awtomatig, byddai'r Gwasanaeth yn datblygu fframwaith i staff yr ystafell reoli fynd ati'n gadarn i gwestiynu galwadau a ddaw gan larymau tân awtomatig, ac ni fyddent yn anfon criw heblaw eu bod wedi cael cadarnhad ar lafar fod yna dân. Ond cydnabyddir y byddai angen cael meini prawf gwahanol ar gyfer risg er mwyn cydnabod y mathau gwahanol o safleoedd, er enghraifft llety gwarchod a safleoedd masnachol.

4.5 Daeth y Cadeirydd â'r drafodaeth i ben, ac esbonio eto y byddai'r argymhellion yn cael eu hystyried ar ôl trafod yr holl adroddiadau.

**5 RHAGOR O OSTYNGIAD YN NIFER SWYDDI SWYDDOGION GWEITHREDOL SY'N DARPARU GOFAL 24 AWR**

5.1 Cyflwynodd y PSTC Fairhead yr adroddiad a oedd yn gofyn am ragor o wybodaeth am oblygiadau posibl gostwng nifer y swyddi ar gyfer swyddogion gweithredol yn GTAGC.

5.2 Mae'r Gwasanaeth yn gweithredu'r System Rheoli Digwyddiadau, system a gydnabyddir yn genedlaethol ac sy'n diffinio lefelau'r rheolaeth sydd eu hangen i gefnogi systemau gwaith diogel ac effeithiol mewn digwyddiadau gweithredol. Ar hyn o bryd, mae 32 o swyddi rheolwyr canol yn y Gwasanaeth, a chyngor y Prif Swyddog Tân yw bod modd gostwng nifer cnewyllyn swyddogion o 32 i 28 er bod risgiau a materion sylfaenol i'r Awdurdod.

5.3 I ymateb i awgrym y Cyng. Shotton y dylid gostwng nifer y rheolwyr canol i 26 o swyddi, esboniodd y PST y byddai gostwng y nifer yn is na 28 yn creu risg annerbyniol i'r Awdurdod ac i ddiogelwch y staff gweithredol mewn digwyddiadau. Fel yr esboniodd y PST, mae'r System Rheoli Digwyddiadau'n cyfeirio atynt fel 'rheolwyr canol' ond swyddogion ydynt mewn gwirionedd, sy'n gwbl sgilgar a hyfforddedig i gymryd rheolaeth mewn digwyddiadau tân mawr a gweithredu system 24/7, a hynny 365 o ddiwrnodau y flwyddyn. Yn ogystal â hyn mae ganddynt swyddi yn ystod y dydd yn y Gwasanaeth, a phetai'r Awdurdod yn penderfynu gostwng nifer y swyddi byddai problemau capasiti mewn rhannau eraill o'r Gwasanaeth.

5.4 Nodwyd hefyd ei bod yn annhebygol, ar ôl ystyried proffil ymddeol y cnewyllyn swyddogion presennol, y gellid gwneud unrhyw ostyngiad heb ystyried diswyddiadau gorfodol, ac atgoffwyd yr aelodau nad oes gan yr Awdurdod unrhyw gynllun diswyddiadau gwirfoddol na gorfodol ar gyfer y grŵp hwn o staff.

5.5 Daeth y Cadeirydd â'r drafodaeth i ben ac esbonio eto y byddai'r argymhellion yn cael eu hystyried ar ôl trafod yr holl adroddiadau.

**6 CYLLIDEB YR AWDURDOD TÂN AC ACHUB 2015-16**

6.1 Cyflwynodd y Prif Swyddog Tân yr adroddiad a oedd yn rhoi'r diweddaraf i'r aelodau am y cynnydd a wnaed wrth ddatblygu cyllideb ddrafft yr Awdurdod Tân ac Achub ar gyfer 2015-16.

6.2 Atgoffwyd yr Aelodau gan y PST fod yr Awdurdod yn ei bedwaredd flwyddyn o rewi ei gyllideb, a soniodd am y gostyngiadau a wnaed hyd yn hyn. Ers cyfarfod diwethaf yr Awdurdod, mae Llywodraeth Cymru wedi datgan ei bod am leihau'r grant diogelwch cymunedol, 52% yn llai o refeniw a 50% yn llai o gyfalaf. Bydd hyn yn effeithio ar y gwaith ataliol, gan gynnwys archwiliadau diogelwch tân yn y cartref, y Ffenics a'r gwaith lleihau llosgi bwriadol.

6.3 Roedd sesiynau briffio wedi cael eu cynnal ar gyfer pob awdurdod lleol yn y Gogledd i amlinellu sefyllfa'r ATA o ran ei gyllideb a'i amcanion gwella ar gyfer y dyfodol. Roedd y ddogfen ymgynghori wedi ei chyhoeddi ac roedd 179 o ymatebion wedi dod i law hyd yn hyn, gydag 80% o blaid cadw'r gwasanaethau a chynyddu'r ardoll. Hyd yn hyn, daeth ymatebion i law gan ddau awdurdod lleol, sef CBS Wrecsam a Chyngor Sir y Fflint. Roedd ymateb CBS Wrecsam wedi ei atodi i'r adroddiad, ac fe wnaeth y Dirprwy Glerc ddarllen allan ymateb Sir y Fflint, sef:

> 'Mae'r Cyngor yn rhannu pryderon Awdurdod Tân ac Achub Gogledd Cymru i ddiogelu'r gwasanaethau ataliol ac ymatebol gymaint ag y bo modd. Mae'r Cyngor yn gofyn i'r Awdurdod Tân ailedrych eto ar gyfleoedd i sichrau arbedion effeithlonrwydd a gostyngiadau mewn gwariant ar wasanaethau anstatudol, ac i fod yn agored i graffu ariannol a herio wrth gael y gwerth mwyaf am arian a gostwng costau gorbenion tra hefyd yn darparu'r un lefel neu well lefel o ddiogelwch ar gyfer trigolion Sir y Fflint, a hynny er mwyn gwrthbwyso unrhyw gynnydd yn yr ardoll i'w thalu gan gynghorau cyfansoddol Gogledd Cymru.'

6.4 Yn ogystal â'r strategaeth tymor canolig ar gyfer y gyllideb, roedd rhaid i'r Awdurdod ymdrin â phwysau uniongyrchol ac anochel ar gyfer 2015-16, sef tua £750,000. Felly roedd aelodau'r Panel Gweithredol wedi gofyn yn y cyfarfod ar 27 Hydref i gael trafod gweithredol yn y cyfarfod arbennig hwn ragor o wybodaeth am y dyletswyddau anstatudol, y larymau tân awtomatig a swyddi swyddogion. Gofynnwyd am ragor o wybodaeth am Atal Tân hefyd, ond ers hynny roedd yr ymddiriedolwyr wedi penderfynu dirwyn yr elusen i ben ar ddiwedd Mawrth 2015 felly ni fydd angen ei ariannu yn y flwyddyn ariannol nesaf.

6.5 Ar yr adeg hon, atgoffwyd yr holl Aelodau gan y Dirprwy Glerc fod disgwyl iddynt weithredu er lles Awdurdod Tân ac Achub Gogledd Cymru wrth ystyried materion y gyllideb. Gan dderbyn y cyngor, teimlai'r Cyng. Skelland ei bod yn anodd iddo anghofio ei rôl fel cynghorydd ac roedd yn cytuno â'r llythyr gan Arweinydd CBS Wrecsam mai rhewi'r gyllideb fyddai'r opsiwn gorau gan fod y cynghorau'n gorfod ymdrin â thoriadau mwy na'r ATA. Gan gydnabod cyfyng-gyngor y cynghorau, gofynnodd y PST i'r aelodau feddwl am y gwasanaeth tân ac achub fel rhan o wasanaethau cyhoeddus eu cynghorau ac ystyried sut i flaenoriaethu gwasanaeth tân ac achub mewn perthynas â'r holl wasanaethau a ddarperir i'r cyhoedd gan lywodraeth leol. Dywedodd y PST hefyd mai'r man cychwyn gorau fyddai peidio â chynyddu'r ardoll ond y byddai'r swyddogion yn ymdrechu i leihau unrhyw ardoll gymaint â phosibl.

6.6 Diolchodd y Cadeirydd i'r Dirprwy Glerc am eu hatgoffa, ac i'r Aelodau am eu cyfraniadau, a symud at yr argymhellion a oedd yn yr adroddiadau.

6.7 **PENDERFYNWYD**

**(i) nodi'r risgiau sy'n gysylltiedig â gosod cyllideb fantoledig ar gyfer 2015-16;**

**(ii) cadarnhau y dylid llunio cyllideb 2015-16 ar sail y lefel gyfredol o ddarparu gwasanaethau;**

**(iii)** **derbyn argymhellion y Panel Gweithredol y dylid cynyddu'r ardoll os oes angen hyd at swm sy'n cyfateb i £1 y pen o'r boblogaeth;**

**(iv)** **cadarnhau y dylid, yn 2015-16, weithredu'r opsiynau a ganlyn o ran yr arbedion, gan roi adborth i'r Awdurdod ymhen 12 mis ar effaith gweithredu'r opsiynau hyn:**

| | |
|---|---|
| • lleihau effaith refeniw ar wariant cyfalaf oherwydd amseriad gwaith adeiladu | £87k |
| • rhoi'r gorau i wasanaethau anstatudol Atal Tân | £35k |
| • rhoi'r gorau i wasanaethau anstatudol achub â rhaffau ac achub anifeiliaid mawr | £16k |
| • mynd at lai o larymau tân awtomatig | £25k |
| • gostwng nifer swyddi rheolwyr canol gweithredol | £250k |

**(v)** **ar y sail hwnnw, argymell cyllideb drafft yr Awdurdod ar gyfer 2015-16.**

Gofynnodd y Cynghorwyr A I Dunbar, P W Shotton a M A Reece i'w pleidleisiau yn erbyn penderfyniadau 7 (ii), (iii) a (v) gael eu cofnodi.